# YMNUNWCH Â NI

# TRYSORYDD

## PECYN GWYBODAETH I YMGEISWYR

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
**Fire and Rescue Service**

**RAISING AWARENESS - REDUCING RISK**

# CYNNWYS

PWY YDYM NI? …………………………………………….3

PROFFIL RÔL …………………………………………….4

DISGRIFIAD SWYDD…………………………………….5

MANYLEB PERSON……………………………………..7

Y BROSES YMGEISIO ………………………………....8

SUT I YMGEISIO ……………………………………...9

BUDDION ……………………………………………..10

# PWY YDYM NI?

## “I WNEUD DE CYMRU'N DDIOGELACH,

## TRWY LEIHAU RISG”

Ni yw Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a’n gweledigaeth, ein cenhadaeth a’n gwerthoedd sy’n gyrru ac yn cymell ein pobl i wneud de Cymru’n fwy diogel, drwy leihau risg. Ein nod yw amddiffyn a gofalu am y 10 Awdurdod Unedol sy'n creu ein hardal amrywiol trwy weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr gwasanaethau rheng flaen eraill

Rydym yn cyflogi tua 1700 o bobl ar draws De Cymru mewn cymysgedd o rolau Gweithredol a Chorfforaethol, gyda’r rhan fwyaf o’n staff corfforaethol wedi’u lleoli yn ein pencadlys yn Llantrisant.

Cefnogir y gwasanaethau rheng flaen a ddarperir gan Staff Gweithredol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru gan nifer o dimau, sy'n cyflawni rolau gweinyddol a thechnegol. Mae Staff Gweithredol a Chorfforaethol yn cydweithio'n agos i ddarparu lefel uchel o wasanaeth i gymunedau De Cymru

Mae Amrywiaeth, Cynhwysiant, Cydlyniant a Thegwch yn flaenoriaeth i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac mae gennym ymrwymiad i ymdrechu i adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

# PROFFIL SWYDD

## Dylech chi gyflwyno eich cais erbyn 12:00yh Dydd Gwener 7fed o Chwefror 2025

Rydym yn ceisio Trysorydd o'r calibr uchaf i ddarparu cyngor proffesiynol cadarn ar faterion ariannol strategol a rheolaeth ariannol strategol i sicrhau y cyflawnir ein hymrwymiadau statudol, a bod y Gwasanaeth wedi'i saernïo i wynebu heriau'r dyfodol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn weithiwr ariannol proffesiynol hollol gymwys ac yn aelod o gorff proffesiynol, parchus.

Bydd profiad helaeth o reolaeth ariannol strategol yn hanfodol.  Hefyd, bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fedru arddangos creadigrwydd a sgiliau rhyngbersonol o safon uchel, gyda'r gallu i berswadio pobl eraill i wella llythrennedd ariannol ar draws y sefydliad.

Mae gwybodaeth a dealltwriaeth gweithredol o effaith wleidyddol polisi ariannol a materion cyfredol ym maes ariannu'r sector cyhoeddus, ac yn fwy penodol llywodraeth leol, yn hanfodol.

- Oriau Gwaith: **118 Dydd y Flwyddyn**
- Cytundeb: **Parhaol**
- Cyflog**:  £82,182 Pro rata (codiad cyflog yn yr arfaeth)**
- Cyfeirnod y Swydd: **NU121a**
- Dyddiad Cau: **Ganol Dydd. 12:00yh 7fed Chwefror 2025**

# SWYDD-DDISGRIFIAD

**Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth**

**Yn gyfrifol i'r:** Prif Swyddog Tân

**Yn gyfrifol am:** I weithredu fel Trysorydd i Gronfa gyfunol y Gwasanaeth Tân yn unol ag Adran 112(2)(b) Gorchmynion Gwasanaethau Tân De Cymru (Cynllun Cyfunol) 1995 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio.

1. Cyflawni 'Rôl y Prif Swyddog Ariannol' yn unol â'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).
2. I oruchwylio crynhoi cyllideb flynyddol yr Awdurdod ac ymgynghori â'r awdurdodau cyfansoddol a Llywodraeth Cymru. Sicrhau bod y lefelau a osodwyd yn ddigon i alluogi ymrwymiadau ariannol yr Awdurdod i gael eu cwrdd.
3. Trefnu penderfyniad, cyhoeddiad a throsglwyddiad cyfraniadau gan Awdurdodau Cyfansoddol eraill; a chynghori ar faterion cyllidebol, gan gynnwys unrhyw oblygiadau hirdymor canlyniadol.
4. Trefnu gweithrediad cywir materion ariannol yr Awdurdod yn unol ag Adran 112(2) (b) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.
5. Arwain a saernïo strategaeth ariannol gyfansoddol yr Awdurdod a datblygu'r Strategaeth Ariannol Ganoldymor (SAG).
6. Gwneud argymhellion ar ddull cyflawni polisïau'r Awdurdod a chynghori arweinwyr y gwasanaeth ar bob mater cyllidol fel rhan o uwch dimau gweithredol ac arwain y Gwasanaeth.
7. Arwain, cynghori a chefnogi materion cymhleth a gwleidyddol sensitif sy'n effeithio'r Gwasanaeth wrth iddynt effeithio'r sefyllfa ariannol.
8. Darparu cyngor ariannol i Awdurdod Tân De Cymru ar bob agwedd o'i weithgarwch, gan gynnwys cynllunio strategol a'r broses creu polisïau; cynorthwyo aelodau i geisio cael gwerth gorau am arian; cynghori Awdurdod Tân De Cymru parthed priodoldeb ariannol.
9. Sicrhau y darperir gwybodaeth rheoli ariannol cywir, cyflawn ac amserol i'r Awdurdod a'r Prif Swyddog Tân; sicrhau paratoad cyfrifon statudol a chyfrifon eraill.
10. Darparu gwasanaeth archwilio a chymorth effeithiol wrth ddarparu trefniadau ariannol effeithlon.
11. Rhoi trefniadau rheoli trysorlys effeithiol ar waith, gan gynnwys benthyciadau a buddsoddiadau.

12. Cynghori mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Tân parthed diogelu asedau, gan gynnwys rheoli risg ac yswiriant.
13. Cynghori'r Awdurdod er mwyn iddo fod yn fodlon bod gan y Prif Swyddog Tân reolaeth systemau mewnol effeithiol ar waith ar gyfer rheoli, llywodraethol a rheolaeth i alluogi dirprwyo cyfrifoldebau mewn modd cywir ac effeithiol.
14. Cysylltu â chyrff ac adrannau perthnasol eraill i sicrhau yr adnabyddir a deellir anghenion ariannol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.
14. Yn unol â gofynion statudol, i adrodd am unrhyw benderfyniad gan yr Awdurdod neu'r Gwasanaeth Tân ac Achub a allai fod yn anghyfreithlon.
15. I eistedd ar weithgorau a phwyllgorau cyrff allanol fel bo'r gofyn, yn sicrhau ymrwymiad priodol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.
16. I ddatblygu a hyrwyddo partneriaeth waith gyda Gwasanaethau Tân ac Achub eraill ac asiantaethau.
17. I gyfrannu at y blaenoriaethau sydd â'r nod o gyflawni amcanion Cynllun Gwella Corfforaethol y Gwasanaeth.

**Yn ogystal â’r dyletswyddau a chyfrifoldebau a nodir uchod bydd yn ofynnol i ddeilydd y swydd:**

- fynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl yr angen
- gyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill sy’n gymesurol â’r raddfa a’r swydd
- gydweithredu’n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot o’r fath a gyflwynir o fewn yr Adran neu ar draws y Gwasanaeth
- weithredu egwyddorion Polisïau Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wrth gyflawni’r dyletswyddau uchod.
- ufuddhau i Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/Polisïau a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol a chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a diogelwch eich hun yn ogystal â rhai personau eraill a all gael eu heffeithio’n andwyol gan eich gweithredoedd/anweithredoedd.

# Y FANYLEB PERSON

**HANFODOL**

- ✓ Cymhwyster Cyfrifeg Proffesiynol
- ✓ Aelod o Bwyllgor Ymgynghorol y Cyrff Cyfrifyddu (CCAB)
- ✓ Profiad o reoli Adran Ariannol
- ✓ Cefndir o ffurfio, arwain a chyflawni strategaethau a rhaglenni gwella sy'n goresgyn ffiniau'r gwasanaeth neu ffiniau proffesiynol ac yn codi safonau perfformiad
- ✓ Arddangos dealltwriaeth gadarn o oblygiadau gwleidyddol, ariannol ac adnoddol i'r Sector Cyhoeddus yn enwedig yng Nghymru
- ✓ Gwybodaeth am ddeddfqriaeth a dyletswyddau statudol yn benodol i Lywodraeth Leol
- ✓ Y gallu i arddangos atebolrwydd llawn a phrofiad o weithio i egwyddorion gwerth gorau gan gynnwys rheoli perfformiad a gwybodaeth a phrofiad o'r Rhaglen Gymreig ar gyfer Gwella
- ✓ Dealltwriaeth o egwyddorion ac arferion cydraddoldeb ac ymrwymiad iddynt a'u gweithrediad ar draws y Gwasanaeth yn gyfan. I hyrwyddo safon uchel o ymddygiad, uniondeb a chywirdeb.
- ✓ Profiad blaenorol o ddelio'n llwyddiannus â materion sy'n sensitif a chyfrinachol
- ✓ Aelod tîm brwdfrydig a chynhwysol sydd â sgiliau rhyngbersonol cryf, sy'n medru gweithio'n effeithiol ar draws holl lefelau'r sefydliad a'r asiantaethau partner
- ✓ Sgiliau cyfathrebu effeithiol i ennyn hyder ac ymddiriedaeth a thrafod gydag ystod eang o gynulleidfaoedd a dylanwadu arnynt, megis aelodau, uwch reolwyr, staff, partneriaid allanol a rhanddeiliaid eraill
- ✓ Y gallu i ymchwilio, datblygu a gweithredu datrysiadau cost effeithiol i amrywiaeth o faterion.
- ✓ Y gallu i ddarparu safonau gwaith uchel o fewn amserlenni tynn a blaenoriaethau cystadleuol, gan sicrhau y caiff prosiectau a rhaglenni eu cydlynu a'u darparu yn unol â blaenoriaethau sefydliadol.
- ✓ Gallu gweithio'n effeithiol o fewn yr amgylchedd gwleidyddol gan ddatblygu atebion ymarferol a chreadigol i faterion strategol sy'n sensitif i ddiddordebau rheolaethol a gwleidyddol.
- ✓ Adeiladu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol gydag aelodau etholedig neu gomisiynwyr sy'n ennyn hyder, parch ac ymddiriedaeth.

**DYMUNOL**

- ✓ Cymhwyster Uwch Reolaeth Berthnasol e.e. Gradd, MBA, DMS, Cymhwyster Rheoli ôl-radd
- ✓ Siaradwr Cymraeg

# Y **BROSES** YMGEISIO

**Dylai ymgeiswyr gwblhau ein ffurflen tystiolaeth ar gyfer llunio rhestr fer y gellir ei chyrchu yma. Dylai hwn fynd i'r afael â'r cwestiynau isod gydag ymateb nad yw'n fwy na 500 gair fesul cwestiwn (Uchafswm 2000 Gair)**

**Cwestiwn 1: Cymhwsedd** Amlinellwch eich cymhwysterau a'ch profiad i ddangos mai chi yw'r person iawn ar gyfer y swydd.

**Cwestiwn 2: Arweinyddiaeth Ragorol -** Amlinellwch sut rydych chi eich hunan yn adeiladu ymddiriedaeth a hyfrededd, a thrwy hynny yn fodel rôl moesegol a rhagorol

**Cwestiwn 3: Effeithiolrwydd Sefydliadol -** Darparwch enghreifftiau o sut yr ydych chi wedi gweithio'n effeithiol o fewn yr amgylchedd gwleidyddol gan ddatblygu atebion ymarferol a chreadigol i faterion strategol.

**Cwestiwn 4: Effaith Bersonol –** Rhowch enghreifftiau o sut rydych chi'n meithrin perthnasoedd ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd a sut rydych chi'n addasu arddulliau cyfathrebu i gwrdd ag amrywiaeth o randdeiliaid.

# SUT I YMGEISIO

**Ymgeiswyr Allanol**

Mewngofnodwch i'n gwefan yn: www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-â-ni/-swyddi-gwag-diweddaraf. Dewiswch y rôl o'r 'Swyddi Gwag Cyfredol' a chliciwch ar y ddolen ar gyfer ein system e-recriwtio.

Sicrhewch fod pob adran o'r ffurflen gais wedi'i chwblhau a chofiwch atodi'r wybodaeth ategol sy'n manylu ar eich cymhwysedd ac sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â meini prawf y rhestr fer.

**Ymgeiswyr Mewnol**

Mewngofnodwch i People XD/Core a llywio i 'swyddi gwag cyfredol' i ddewis y swydd berthnasol. Sicrhewch fod pob adran o'r cais wedi'i chwblhau a chofiwch atodi'r wybodaeth ategol sy'n manylu ar eich cymhwysedd ac sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â meini prawf y rhestr fer.

**Pob Ymgeisydd**

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall, megis print bras neu gefndir gwyn neu liw, neu fel arall angen ffurflen gais bapur, cysylltwch â'n tîm Recriwtio recriwtio@decymru-tan.gov.uk neu ffoniwch ni ar 01443 232300 a byddwn yn wneud pob ymdrech i'ch helpu cyn gynted â phosibl.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Rhoddir cyfle i ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam Rhestr Fer i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweld). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn y gwahoddiad i gyfweliad ac fe all gynnwys Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

# BUDDION

**Gwyliau Blynyddol –** Cewch lwfans hael ar gyfer gwyliau gyda gwyliau banc yn ychwanegol blynyddol.

**Rhaglen Cymorth i Weithwyr -** Mae'r RhGG yn darparu cyngor a chymorth cyfrinachol, diduedd 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim i weithwyr gael mynediad iddo pryd bynnag y bo angen.

**Vivup –** Darparwr buddion gweithwyr sydd wedi ennill gwobrau ac sy'n cynnig pentwr o fanteision ac arbedion iechyd a lles i'r holl staff ar draws nifer o frandiau mawr.

Mae rhai o fanteision y platfform hwn yn cynnwys:

**Cynllun Seiclo i'r Gwaith**

**Cynllun ceir Tusker**

**Gostyngiad nwyddau i'r cartref a nwyddau electroneg**

**Oriau Gwaith Hyblyg** – Mae staff corfforaethol yn gallu gweithio oriau hyblyg. Gydag oriau craidd o 10yb – 12yp a 2yb – 3yp; Gallwch gwblhau balans eich oriau unrhyw bryd rhwng 7yb a 7yp.

**Dysgu a Datblygu** – Mae GTADC yn cydnabod bod gweithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn allweddol i lwyddiant. Gyda Chanolfan Hyfforddi bwrpasol ym Mhorth Caerdydd a thimau hyfforddi arbenigol, mae digon o gyfleoedd i dyfu a datblygu sgiliau newydd.

**Campfa** - Ble bynnag yr ydych wedi eich lleoli fel gweithiwr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, mae mynediad i'n cyfleusterau campfa ar gael i bawb, yn rhad ac am ddim

**Ymgynghorwyr Iechyd a Ffitrwydd** - Mae ein Hymgynghorwyr Iechyd a Ffitrwydd yn monitro lefelau ffitrwydd staff gweithredol. Gallant hefyd gynnig cyngor iechyd a ffitrwydd i bob gweithiwr ar gais.

**Elusen Diffoddwyr Tân -** Gall pob gweithiwr, ynghyd â'u dibynyddion, fod yn fuddiolwyr yr elusen. Mae'r elusen yn darparu cymorth iechyd a lles i holl gymuned y Gwasanaeth Tân.

**Parcio Ceir –** Nid yw GTADC yn codi tâl am barcio yn unrhyw un o'i safleoedd.

**Hyrwyddwyr Golau Glas Mind –** Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i iechyd a lles, rydym yn cefnogi Rhaglen Golau Glas MIND. Mae'r rhaglen yn cynnig cymorth iechyd meddwl i weithwyr y gwasanaethau brys.

**Iechyd Galwedigaethol -** Nod yr Uned Iechyd Galwedigaethol yw cynyddu effeithlonrwydd iechyd a lles staff i'r eithaf a lleihau'r risgiau y mae staff yn agored iddynt o ganlyniad i arferion gwaith a'r amgylchedd.

**Pensiwn –** Mae staff cymorth yn gymwys i ymuno â chynllun pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gynllun pensiwn â buddion penodedig. Mae cyfraniadau gweithwyr yn seiliedig ar eich cyflog.

**Chwaraeon a Chymdeithasol –** Mae ein hadran chwaraeon a chymdeithasol yn dod â gweithwyr ynghyd o bob adran. Mae ffotograffiaeth, sgïo, crwydro, seiclo, pêl-droed, rygbi, syrffio a golff yn rhai o'r diddordebau a rennir.

**Cyrsiau Cymraeg –** Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg yn y gweithle ac yn cynnig mynediad i bob gweithiwr i gyrsiau Cymraeg ar ystod o lefelau i weddu i bob angen.

**Hyderus o ran Anabledd** – Rydym yn falch o fod yn Gyflogwr Ymrwymedig Hyderus o ran Anabledd ardystiedig

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service

## South Wales Fire and Rescue Service

Recruitment & Retention Team
Fire Service Headquarters
Forest View Business Park
Llantrisant
CF72 8LX

Recruitment Line – 01443 232200
recruitment@southwales-fire.gov.uk

**SGANIWCH FI**

www.southwales-fire.gov.uk/working-with-us